



Eich hawl chi i fyw'n annibynnol

Ein cynllun ar gyfer cefnogi pobl anabl i fyw bywyd annibynnol



Fersiwn Hawdd ei Ddeall yw hwn o 'Gweithredu ar Anabledd: Hawl i Fyw'n Annibynnol Fframwaith a'r Cynllun Gweithredu' Llywodraeth Cymru.

Medi 2019

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon



Fersiwn hawdd ei ddeall yw hwn. Mae'r geiriau a'r hyn maen nhw'n feddwl yn hawdd i'w darllen a'u deall.

Efallai na fedrwch chi ddarllen a deall y ddogfen hon heb help. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.

Efallai bydd rhai geiriau yn anodd i'w deall. Mae'r rhain wedi cael eu hysgrifennu mewn **glas trwm**. Mae'n dweud beth maen nhw'n feddwl mewn bocs o dan y gair.

Os bydd y gair anodd yn cael ei ddefnyddio eto bydd yn cael ei ysgrifennu mewn **glas cyffredin**. Gallwch chi edrych ar beth mae'n feddwl ar dudalen 32.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Pan fydd y ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Llywodraeth Cymru**. I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag:

Cyfeiriad:

Adran Cydraddoldeb
Is-adran Cymunedau
Grŵp Addysg a Gwasanaethau
Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost:

CangenCydraddoldeb@llyw.cymru



Cafodd y ddogfen hon ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**.

Sut i ddefnyddio'r ddogfen hon.....	2
Cyflwyniad.....	4
Ynglŷn â'n cynllun.....	6
Model cymdeithasol anabledd.....	7
Ffyniant i Bawb.....	8
Y pethau rydyn ni wedi eu gwneud hyd yma.....	9
Newidiadau i'r gyfraith.....	9
Cyflawniadau eraill.....	10
Ein cynllun.....	12
1. Gwaith a thai.....	12
2. Iechyd a lles.....	18
3. Addysg a gwybodaeth	22
4. Aros mewn cysylltiad.....	26
Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud	31
Geiriau anodd.....	32

Cyflwyniad



Mae arnon ni eisiau i bobl ag anableddau gael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall.



Yn 2013 fe ysgrifennon ni gynllun sy'n cael ei alw'n **Fframwaith Gweithredu ar gyfer Byw'n Annibynnol Llywodraeth Cymru**. Roedd yn dweud beth y dylen ni wneud i helpu pobl anabl gyrraedd eu nodau. A byw y bywyd maen nhw'n dymyno ei fyw.



Yn 2017 fe siaradon ni â phobl anabl a mudiadau. Fe ofynnnon ni iddyn nhw:

- pa bethau roedden nhw'n meddwl oedd wedi gwella i bobl anabl
- beth arall sydd angen ei wneud.



Fe helpodd barn pobl ni i ysgrifennu'r cynllun newydd hwn. Fe ofynnnon ni i lawer o wahanol bobl beth roedden nhw'n ei feddwl am y cynllun newydd hwn.



Fe wnaethon ni lawer o newidiadau i'r cynllun oherwydd y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni.



Mae ar bawb angen gwneud eu rhan nhw i wneud Cymru'n well ar gyfer pobl ag anableddau. Mae hyn yn cynnwys cyflogwyr, byrddau iechyd lleol, elusennau a gwasanaethau cyhoeddus.



Mae'n rhaid i ni weithio gyda phobl anabl i wneud yn siŵr ein bod ni bob amser yn deall pethau'n iawn.



Os gwnawn ni hyn, fe allwn ni gefnogi pobl ag anableddau i fyw yn y ffordd maen nhw'n dymuno.



Jane Hutt AC

Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip

Ynglŷn â'n cynllun ni

Mae byw'n annibynnol yn meddwl:



- Byw y bywyd rydych chi'n dymuno ei fyw.



- Cael rheolaeth dros eich bywyd chi.



- Gwneud dewisiadau am eich cartref chi, eich gwaith chi, eich ysgol chi a'ch cymuned chi.



- Cael eich trin â pharch.



- Cael cefnogaeth a help pan fydd eu hangen arnoch chi i gael eich cynnwys yn llwyr.

Model cymdeithasol anabledd

Rydyn ni'n credu ym **model cymdeithasol anabledd**.



Mae **model cymdeithasol anabledd** yn dweud bod pobl yn anabl oherwydd **rhwystrau** o fewn cymdeithas. Ac nid oherwydd eu anhwylder neu eu gwahaniaeth.



Mae **rhwystrau** yn unrhyw beth sy'n eich rhwystro rhag gwneud rhywbeth. Er enghraifft, methu mynd i mewn i adeiladau, dod o hyd i doiledau **hygyrch** neu gael gwybodaeth mewn ffordd y gallwch chi ei deall.



Mae **hygyrch** yn meddwl hawdd dod o hyd iddo fe a hawdd ei gyrraedd er mwyn ei ddefnyddio



Mae'r gyfraith yn dweud y dylen ni symud **rhwystrau** sy'n rhwystro pobl rhag cymryd rhan.

Ffyniant i Bawb



Mae'r cynllun hwn yn gynllun cenedlaethol sy'n cael ei alw'n **Ffyniant i Bawb**. Amcan **Ffyniant i Bawb** yw gwneud Cymru:



- yn lle y gall pobl anabl gael gwaith a thai da.



- yn lle y gall pobl wella eu hiechyd a'u **lles**.

Mae **lles** yn unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch iechyd a'ch hapusrwydd.



- yn lle y mae pobl yn credu y gallan nhw wneud mwy. A dysgu trwy eu bywyd nhw.



- yn lle y mae pobl yn byw mewn cymunedau cryf.

Y pethau rydyn ni wedi eu gwneud hyd yma

Newidiadau i'r gyfraith



Cafodd Deddf y Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ei chychwyn yn 2016. Y bwriad yw gwella **lles** pobl sydd angen gofal a chefnogaeth. A helpu gofalwyr anabl.



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhestru saith ffordd o wella **lles pobl.**



Mae gwelliannau i'r ffordd y mae landlordiaid a mudiadau cartref yn gorfod gweithio. A hefyd i **gytundebau tenantiaeth**.

Mae cytundeb **tenantiaeth** yn gytundeb sydd gan bobl â'u landlord.



Pan fyddwn ni'n talu am wasanaethau gan bobl eraill, mae arnon ni eisiau i'r gymuned gael rhywbeth yn ôl. Fel hyfforddiant neu swyddi.

Cyflawniadau eraill

Rydyn ni:



- wedi cychwyn gwasanaeth cyngor ynghylch budd-daliadau i helpu teuluoedd sydd â phlant ag anableddau.



- wedi dweud sut y dylai gwasanaethau iechyd da fod i bobl sydd â phroblemau gweld a chlywed.



- wedi ysgrifennu canllaw ynghylch y ffordd o godi adeiladau [hygyrch](#).



- wedi edrych ar y ffordd rydyn ni'n helpu pobl anabl i wneud newidiadau i'w cartrefi.



- wedi dweud sut y dylai gwasanaethau bysus da fod.



- wedi helpu pobl anabl gael swyddi trwy brosiect **Cymunedau dros Waith.**



- wedi rhoi arian i **Anabledd Cymru** i helpu pobl anabl i godi ymwybyddiaeth ynglŷn â chydrraddoldeb a hawliau.



- wedi ysgrifennu pethau y dylai pob gweithiwr ei wybod pan fydd yn gweithio gyda phlant a phobl ifainc.



- wedi helpu rhieni i dalu am ofal plant a dod o hyd i waith a hyfforddiant.

Ein Cynllun

1. Gwaith a thai



Nid pob person anabl sy'n medru cael gwaith gyda thâl. Ond dylai pawb gael bywyd da.



Mae arnon ni eisiau i bobl anabl ei chael hi'n haws cael gwaith.



Dim ond 45 allan o bob 100 o bobl anabl sydd â gwaith. Mae'r nifer o bobl ag anhawster i ddysgu sydd â gwaith yn llawer llai na hyn.



Mae arnon ni eisiau i fusnesau wneud yn dda.



Mae arnon ni eisiau i bobl gael tai sy'n cwrdd â'u hanghenion.

Gwaith - Y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni

Mae cael gwaith yn bwysig iawn ar gyfer:

- Byw'n annibynnol
- Lles
- Hyder
- Gwneud ffrindiau




Y problemau y mae pobl anabl yn ei gael i ddod o hyd i waith yw:

- Dydy hi ddim yn hawdd dod o hyd i waith a gwneud cais am swyddi.
- Does dim llawer o gyfleoedd i ddatblygu medrau.
- Dydy cyflogwyr a staff ddim yn meddwl y gall bobl anabl wneud llawer. Felly dydyn nhw ddim yn rhoi gwaith iawn iddyn nhw.
- Dydy cyflogwyr ddim yn cynnig digon o waith gyda thâl i bobl anabl.





- Dydy pobl ddim yn gwybod am y gefnogaeth y gallan nhw ei chael. Fel y rhaglen **Mynediad i Waith**.



Gwaith – Y pethau rydyn ni’n bwriadu eu gwneud

1. Dilyn ein cynllun i helpu pobl anabl gael gwaith. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i gael gwared â **rhwystrau** rhag cael gwaith.



2. Dweud wrth bobl anabl a chyflogwyr am raglen **Mynediad i Waith**.



3. Helpu pobl sy’n dod o ardaloedd tlotach gael hyfforddiant a phrofiad gwaith trwy ein rhaglen **Cymunedau dros Waith**.



4. Gweithio gyda **Busnes Cymru** i helpu pobl anabl ddysgu am weithio drostyn nhw eu hunain.



5. Helpu pobl anabl i gael **prentisiaethau**.

Prentisiaeth yw pan fydd person yn dysgu medrau ar gyfer gwaith tra bydd yn gweithio.



6. Dweud wrth bobl eraill sut rydyn ni'n cefnogi pobl anabl sy'n gweithio yn Llywodraeth Cymru.



7. Cychwyn rhwydwaith **Hyrwyddwyr Anableddau** i helpu cyflogwyr i roi gwaith i bobl anabl.



8. Cychwyn cynllun gwobrwyo mewn perthynas ag anabledd i annog mwy o gyflogwyr i roi gwaith i bobl anabl.

Tai – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni

Dywedodd pobl nad oedd digon o dai **hygyrch**. Felly nid yw pobl yn cael llawer o ddewis ynglŷn â ble maen nhw'n byw.

Ac efallai bydd yn rhaid iddyn nhw fyw ymhell oddi wrth eu gwaith, eu hysgol neu eu ffrindiau.





Dywedodd llawer o bobl y dylai fod rhestr tai **hygyrch** ar gael. Ac y dylai gael ei diwedddaru a'i bod yn hawdd ei deall.



Mae tai **hygyrch** hefyd yn aml yn fwy drud. Dywedodd pobl wrthyn ni fod arnyn nhw angen tai rhatach.



Mae'r dreth ystafell wely wedi rhwystro pobl rhag byw ble maen nhw'n dymuno. Mae hyn oherwydd eu bod yn awr yn gorfod talu am gael ystafell sbâr.



Felly efallai nad oes ganddyn nhw ddigon o arian i fyw yn rhywle ble gall gofalwr neu deulu aros dros nos.



Does dim digon o dai **hygyrch** yn cael eu hadeiladu.



Mae ar bobl angen cael dweud eu barn ar ffordd o wneud eu cartref yn fwy **hygyrch**. Fel arall, efallai na fydd y newidiadau yn iawn.

Tai – y pethau rydyn ni’n bwriadu eu gwneud



1. Edrych sut rydyn ni’n helpu pobl i wneud eu tai yn fwy **hygyrch**.



2. Edrych ar ffyrdd newydd o adeiladu tai y gall pobl eu fforddio. Ac a fydd yn gallu cael ei newid yn hawdd trwy fywyd person.



3. Penderfynu pa bethau ddylai fod mewn adeilad cyn iddo fe fedru cael ei roi ar restr **hygyrch**.



4. Defnyddio arian o’r **Gronfa Cymorth Dewisol** i gefnogi pobl sydd angen help brys gyda thai.



5. Defnyddio **ymchwil** i leihau y nifer o bobl sy’n dlawd iawn.

Ymchwil yw dod o hyd i bethau trwy edrych ar ffeithiau.

2. Iechyd a Lles



Mae arnon ni eisiau i bobl fod yn fwy iach ac yn fwy heini.



Nid yw gwasanaethau iechyd yn gyfartal ar gyfer pobl anabl. Er enghraifft, dydyn nhw ddim bob amser yn cael gwybodaeth mewn ffordd y gallan nhw ei deall.



Iechyd a Lles – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni

Mae arnon ni angen cwrdd ag anghenion personol pobl. Er enghraifft mae rhai pobl angen mwy o amser ar gyfer apwyntments.



Dydy pobl anabl ddim yn cael cymryd rhan yn ddigon aml mewn cynllunio a rhedeg y gwasanaethau.



Mae'n anodd cael gwasanaethau iechyd meddwl. Roedd pobl yn dweud mai'r unig adeg roedden nhw'n cael triniaeth oedd pan fyddai argyfwng yn codi.




Roedden nhw'n dweud wrthyn ni bod arnon ni angen gwneud mwy i gefnogi pobl â phroblemau iechyd meddwl cyn i bethau fynd yn argyfwng.



Gall **technoleg personoledig** fod yn ddefnyddiol i bobl anabl i'w helpu ag anghenion gofal.

Offer yw **technoleg personoledig** i'ch helpu chi i wneud pethau drosoch chi eich hun. Er enghraifft, teclyn codi i'ch codi chi allan o'ch gwely chi neu gyfrifiadur i'ch helpu chi i siarad.



Dywedodd rhai pobl wrthyn ni eu bod wedi cael eu rhwystro rhag defnyddio gwasanaethau iechyd rhywiol.



Mae llai o arian ar gyfer pethau fel clybiau ymarfer. Mae hyn yn effeithio ar **les** pobl.



Does dim digon o wybodaeth na chefnogaeth i bobl ifainc anabl sy'n dymuno symud allan o gartref y teulu. Fe ddylai fod gweithdai ar gael i helpu pobl i wneud y newid hwn.

Iechyd a Lles – y pethau rydyn ni’n bwriadu eu gwneud



1. Edrych ar y cynllun sydd gennym ni er mwyn gwella cyfathrebu mewn ysbytai ar gyfer pobl sydd â phroblemau gweld a chlywed.
2. Gwneud i'r gwasanaethau cymdeithasol roi cyngor mewn ffordd sy'n cysylltu â Gwasanaeth 111 y GIG.
3. Creu system trwy ddefnyddio'r rhyngrwyd fel bo pobl yn medru rheoli eu hiechyd.
4. Gwneud yn siŵr bod pobl yn cael help i rannu eu barn nhw.
5. Gweithio gyda **Gwasanaeth Golwg Gwan Cymru** ar ein cynllun ar gyfer pobl sy'n colli eu golwg.



Byddar

6. Cyflawni ein cynllun ni i helpu pobl fyddar gael y gwasanaethau sydd eu hangen arnyn nhw.



7. Cyflawni ein cynllun ni i helpu pobl ag awtistiaeth i gael y gefnogaeth sydd ei hangen arnyn nhw.



8. Gweithio gyda gwasanaethau iechyd i helpu pobl reoli eu hanhwylderau tymor hir trwy ddefnyddio **technoleg personoledig**.



9. Gweithio gyda grwpiau eraill i helpu pobl anabl gael gwasanaethau iechyd meddwl.



10. Cyflawni'r rhaglen **Gwella Bywydau**. Er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus i bobl ag anabledau dysgu.



11. Rhoi mwy o arian i **Chwaraeon Anabledd Cymru** i helpu pobl anabl gymryd rhan mewn chwaraeon.



3. Addysg a gwybodaeth

Mae arnon ni eisiau i bobl anabl gael breuddwydion a nod yn eu bywydau nhw.



Mae'n bwysig bod plant anabl yn teimlo y gallan nhw gyflawni'r pethau y mae arnyn nhw eisiau o oed ifanc.

Addysg – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni



Mae ysgolion, colegau a chyflogwyr yn dal i feddwl na all pobl anabl gyflawni llawer. Oherwydd hyn, dydyn nhw ddim yn annog myfyrwyr anabl i geisio gwneud i freuddwydion mawr ddod yn wir.



Dywedodd pobl wrthyn ni eu bod nhw'n cael eu hannog i ddysgu medrau bywyd yn unig. Doedden nhw ddim yn cael eu hannog i gael **cymwysterau**. Roedd arnyn nhw eisiau gwneud y ddau.



Rydych chi'n cael **cymwysterau** pan fyddwch chi'n pasio prawf neu'n gorffen cwrs hyfforddi. Mae'n haws i chi gael gwaith os oes gennych chi **gymwysterau**.



Yn aml nid yw pobl ifainc ag anabledd dysgu yn cael profiad gwaith. Neu dydy'r profiad gwaith ddim yn arwain at gael gwaith.



Mae arnon ni angen rhwystro pobl rhag bwllo plant anabl yn yr ysgol. Dylai plant gael eu dysgu am berthynas iach yn yr ysgol.



Dyweddodd pobl fod arnon ni angen gwneud mwy i wneud ysgolion yn **hygyrch** a gwneud i ysgolion gynnwys pobl anabl.




Dyweddodd pobl wrthyn ni hefyd fod arnon ni angen newid y ffordd rydyn ni'n dysgu plant. Dylen ni gwrdd ag anghenion pob plentyn.



Fe allen ni roi sgorau i ysgolion sy'n dweud pa mor dda maen nhw'n cynnwys plant anabl. Fel bo pobl yn gallu dewis ble i fynd.



Dyweddodd rhai pobl y dylai myfyrwyr anabl gael mwy o arian i'w helpu i ddal ati i astudio.



Addysg – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud

1. Cyflawni ein cynllun ni ar gyfer plant a phobl ifainc sydd angen cefnogaeth ychwanegol. Bydd hyn yn cynnwys gwneud yn siŵr bod anghenion pobl yn cael eu cwrdd yn gynnar.




2. Helpu pobl anabl i gael mwy o addysg a gwneud yn siŵr bod **Lwfans i Fyfyrwyr Anabl** yn gweithio'n iawn.



Gwybodaeth a chyngor – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni

Mae cymaint o wybodaeth ar gael ar y rhynggrwyd yn unig nawr. Dydy pob person anabl ddim yn gallu defnyddio'r rhynggrwyd.



Mae ar bobl angen gwybodaeth **hygyrch** neu gefnogaeth i ddeall gwybodaeth. Dydy hyn ddim bob amser ar gael.



Does dim digon o wasanaethau cyngori wyneb yn wyneb. Mae Cyngor ar Bopeth yn dda ond efallai nad yw'r wybodaeth yn iawn ar gyfer anghenion pobl anabl.



Gwybodaeth a chyngor – y pethau rydyn ni'n bwriadu eu gwneud

1. Cyflawni ein cynllun ni i helpu pobl gael gwell gwybodaeth a chyngor ar bethau fel tai, cael gwaith ac arian.



2. Gwneud yn siŵr bod cyngor a gwybodaeth o safon dda ar gyfer pobl anabl.



3. Hyrwyddo **model cymdeithasol anabledd** yn Llywodraeth Cymru ac ar draws Cymru. Byddwn ni'n rhedeg cyrsiau ac yn ei gynnwys ym mhopeth rydyn ni'n ei wneud.

4. Aros mewn cysylltiad



Mae arnon ni eisiau i:

- Bobl gymryd rhan yn eu cymunedau nhw.



- Fwy o arian gael ei ennill a'i wario yng Nghymru.



- Bobl fod yn hyderus ac yn falch o Gymru.



- Bobl fod mewn cysylltiad â phobl eraill.



Mae arnon ni angen cludiant cyhoeddus i wneud i hyn ddigwydd. Ac i helpu pobl gael gwybodaeth oddi ar y rhyngrwyd.

Aros mewn cysylltiad – y pethau ddywedodd pobl wrthyn ni



Mae cludiant yn bwysig iawn i bobl anabl fynd i'r gwaith, cyfarfod â ffrindiau a defnyddio gwasanaethau.



Ond dydy hi ddim bob amser yn hawdd defnyddio cludiant cyhoeddus. Dywedodd pobl wrthyn ni bod hyn yn gwneud iddyn nhw deimlo'n unig a'u bod yn cael eu gadael allan.



Mae ar rai plant anabl a phobl ifainc angen i'w rhieni neu eu gofalwyr fynd â nhw i'w gwasanaethau a'u gweithgareddau nhw.



Dyweddodd pobl wrthyn ni yr hoffon nhw gael hyfforddiant i helpu pobl anabl ddefnyddio cludiant ar eu pennau eu hunain.



Does dim digon o le ar gyfer cadeiriau olwyn ar fysus. Ac mae pobl yn gorfod neilltuo lle ar drenau o flaen llaw.



Dyweddodd pobl wrthyn ni y dylai pob aelod o staff ar gludiant gael hyfforddiant ynglŷn â'r ffordd i gefnogi pobl ag anableddau. Ac ynglŷn â'r gyfraith ar gael gwared â [rhwystrau](#) i bobl anabl.



Dyweddodd pobl wrthyn ni hefyd fod ar y cyhoedd angen gwybod mwy ynghylch anghenion pobl ar gludiant.



Mae'n anodd defnyddio gwasanaethau hamdden. Dywedodd pobl y dylai bod ffordd o roi sgorau i wasanaethau hamdden sy'n dangos pa mor **hygyrch** ydyn nhw.



Mae rhai pobl yn ei chael hi'n anodd mynd o gwmpas mannau cynhoeddus. Weithiau mae'r palmant ar gau. Neu wedi torri.



Mae pobl hefyd yn ei chael hi'n anodd symud o gwmpas adeiladau cyhoeddus. Weithiau does dim lifftiau nac arwyddion.



Does dim digon yn cael ei wneud i helpu pobl anabl bleidleisio mewn etholiadau.

Mae **etholiad** yn digwydd pan fyddwch chi'n dewis person i'ch cynrychioli mewn cyngor lleol. Neu mewn llywodraeth.



Mae pobl yn dweud hefyd y dylai fod mwy o arian i gefnogi pobl i fynd i mewn i wleidyddiaeth.



Dydy pobl anabl ddim yn cael eu tynnu i mewn yn ddigon buan pan fydd gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud cynlluniau yn eu hardal nhw. Weithiau dydyn nhw ddim yn cael eu tynnu i mewn o gwbl.

Aros mewn cysylltiad – y pethau y byddwn ni'n eu gwneud

1. Gwella cludiant cyhoeddus ar gyfer pobl anabl. Mae hyn yn cynnwys:



- Gwneud yn siŵr bod gorsafoedd yn cael eu cynllunio i bobl anabl eu defnyddio.



- Edrych pa ar mor **hygyrch** yw'r gwasanaethau bws.



- Rhoi hyfforddiant i yrwyr bws ynghylch anabledd.



- Gweld pa mor **hygyrch** yw'r gwasanaeth awyrennau o Ogledd Cymru i Dde Cymru.



2. Helpu pobl anabl i ddefnyddio'r rhyngrwyd i gael gwybodaeth.



3. Fe fyddwn yn gweithio gyda grwpiau eraill i weithio ar gael gwared â **throsedd casineb yn erbyn pobl anabl**.

Mae **throsedd casineb yn erbyn pobl anabl** yn digwydd pan fyddwch chi'n cael eich bwlio neu bydd rhywun yn ymosod arnoch chi am eich bod chi'n anabl.



4. Helpu mwy o bobl anabl i fod yn ymgeisydd mewn **etholiad**.



5. Gweld faint o bobl sy'n ceisio cael lle ar fwrdd y sector cyhoeddus i weld a oes unrhyw broblemau.



6. Gweithio gyda phartneriaid i wneud gwybodaeth yn fwy **hygyrch** ar gyfer ymwelwyr anabl sy'n dod i Gymru.



7. Edrych ar a allan nhw wella mynediad i gestyll ac atyniadau hanesyddol yng Nghymru.



8. Gwella'r ffordd rydyn ni'n defnyddio **Iaith Arwyddion Prydain** wrth i ni ddarparu gwasanaethau.

Y pethau y byddwn ni'n eu gwneud

Fe fyddwn ni'n:



- Gwneud yn siŵr y bydd y cynllun hwn yn cael ei ddefnyddio yn ein holl waith ar gydraddoldeb. Gwneud yn siŵr y bydd y cynllun hwn yn cael ei wirio a'i ddiweddarau.



- Amddiffyn hawliau cyfreithiol pobl anabl. Gwneud yn siŵr bod pobl anabl yn cael yr un cyfleoedd mewn bywyd â phawb arall.



- Dilyn [model cymdeithasol anabledd](#).



- Gweithio gyda phobl anabl i greu ein cynlluniau a'n rhaglenni ni.



- Gwneud gwybodaeth hawdd ei deall sy'n cwrdd ag anghenion pobl.



- Rhoi gwasanaethau a chefnogaeth mewn ffordd sy'n meddwl am y bobl i gyd.

Geiriau anodd

Cymwysterau

Rydych chi'n cael Cymwysterau pan fyddwch chi'n pasio prawf neu'n gorffen cwrs hyfforddi. Mae'n haws i chi gael gwaith os oes gennych chi gymwysterau.

Cytundeb Tenantiaeth

Mae cytundeb tenantiaeth yn gytundeb sydd gan bobl â'u landlord.

Etholiad

Mae etholiad yn digwydd pan fyddwch chi'n dewis person i'ch cynrychioli mewn cyngor lleol. Neu mewn llywodraeth.

Hygyrch

Mae hygyrch yn meddwl hawdd dod o hyd iddo fe a hawdd ei gyrraedd er mwyn ei ddefnyddio.

Lles

Mae lles yn unrhyw beth sy'n ymwneud â'ch iechyd a'ch hapusrwydd.

Model cymdeithasol anabledd

Mae model cymdeithasol anabledd yn dweud bod pobl yn anabl oherwydd rhwystrau o fewn cymdeithas. Ac nid oherwydd eu anhwylder neu eu gwahaniaeth nhw.

Prentisiaeth

Prentisiaeth yw pan fydd person yn dysgu medrau ar gyfer gwaith tra bydd yn gweithio.

Rhwystrau

Mae rhwystrau yn unrhyw beth sy'n eich rhwystro chi rhag gwneud rhywbeth. Er enghraifft, methu mynd i mewn i adeiladau, dod o hyd i doiledau hygyrch neu gael gwybodaeth mewn ffordd y gallwch chi ei deall.

Technoleg personoledig

Offer yw technoleg personoledig i'ch helpu chi i wneud pethau drosoch chi eich hun. Er enghraifft, teclyn codi i'ch codi allan o'ch gwely chi neu gyfrifiadur i'ch helpu chi i siarad.

Trosedd casineb yn erbyn pobl anabl

Mae trosedd casineb yn erbyn pobl anabl yn digwydd pan fyddwch chi'n cael eich bwlio neu bydd rhywun yn ymosod arnoch chi am eich bod chi'n anabl.

Ymchwil

Ymchwil yw dod o hyd i bethau trwy edrych ar ffeithiau.

